# 10 Rheoli'r etifeddiaeth

## Ymdrin â dyled

98. Er bod sefydlu system newydd ar gyfer y drefn cynnal plant yn rhoi cyfle i ymwahanu â'r gorffennol, mae angen ymdrin â materion a etifeddwyd sy'n deillio o fethiannau'r gorffennol o hyd. Ni fydd rhieni dibreswyl yn gallu osgoi eu cyfrifoldebau presennol, gan y bydd corff gweddilliol yn parhau i orfodi dyledion y gorffennol. Bydd pwerau gorfodi cryfach, mwy effeithiol yn cyfuno ag ymdrechion i wella'r diwylliant cydymffurfio.

99. Mae angen i'r system wedi'i hailgynllunio ymwahanu'n llwyr rhag achosion a fu yn y gorffennol. Fodd bynnag, mae gan y system bresennol ddyledion sylweddol. Ar hyn o bryd, nid oes gan yr Asiantaeth Cynnal Plant unrhyw bwerau i ddiddymu dyledion, hyd yn oed mewn achosion lle na ellir gorfodi'r ddyled yn gyfreithiol drwy Orchymyn Rhwymedigaeth.[59] Nid yw'r Llywodraeth yn gwarantu cynhaliaeth cynnal plant, ond mae'n gweithredu fel canolwr rhwng rhieni. Ni ddylid caniatáu i'r gwaith o ymdrin â hen ddyledion na ellir eu casglu lesteirio'r broses o weithredu'r system newydd.

100. Ym mis Ebrill 2005, roedd dros £3 biliwn o ddyledion cynhaliaeth wedi cronni ers 1993. Mae'r Asiantaeth eisoes yn cymryd camau i wella dulliau casglu dyledion drwy ei Chynllun Gwella Gweithredol drwy:

- cyflogi asiantaethau casglu dyledion allanol i adennill dyledion sydd heb eu talu, gan ddefnyddio arfer gorau o'r sector preifat;
- defnyddio dulliau ailddefnyddio ac ailstrwythuro i gynyddu nifer y staff gorfodi bedair gwaith yn ystod cyfnod y Cynllun Gwella Gweithredol;
- sicrhau bod timau rheoli dyled yn cymryd camau ar unwaith pan gaiff taliad ei golli;
- gwneud mwy o ddefnydd o wybodaeth a ddelir gan Gyllid a Thollau EM ac asiantaethau cyfeirio credyd.

101. Ni fydd cyflawni'r gwelliannau hyn yn cael gwared ar y broblem a achosir gan hen ddyledion. Bydd angen cymryd camau pellach ond dylai rheoli dyled o'r fath fod yn broses annibynnol, ar wahân i gyflwyno'r system cynnal plant newydd. Dylid rhoi pwerau i'r corff gweddilliol negodi neu ffactoru dyledion er mwyn sicrhau'r adenillion gorau posibl. Dylid defnyddio pwerau i ddiddymu dyled mewn achosion lle nad yw'n bosibl adennill unrhyw arian.

102. I ategu'r argymhellion hyn, dylid gwneud gwaith pellach i ddadansoddi'r stoc dyledion yn well. Dylai'r gwaith hwn ganolbwyntio ar sicrhau dealltwriaeth well o'r ffordd orau i ddatrys achosion a sicrhau defnydd priodol o'r pwerau newydd arfaethedig.

**Argymhelliad: Cael pwerau deddfu i reoli dyledion presennol a gwneud gwaith pellach o ran natur dyledion hanesyddol.**